CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2014/15

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: R Llewelyn Jones**
**Grŵp: Dim yn aelod o unrhyw grŵp** **Ward: Caergybi**

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| Rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol: | [1]Ffigyrau Presenoldeb |
|---|---|
| Cyngor | 7 (64%) |
| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (o fis Mai 2014) | 8 |
| Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | 6 (75%) |
| Pwyllgor Archwilio | 8 (88%) |
| Pwyllgor Apeliadau (yn mynychu ar sail rota) | 5 |
| Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) | 2 (66%) |
| Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.<br><br>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel ddeilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (wedi mynychu 3 cyfarfod) a'r Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau.

Y fi yw'r Eiriolydd ar gyfer Pobl Hŷn yn Ynys Môn ac yn y swyddogaeth hon, rwyf wedi mynychu seremonïau i agor canolfannau newydd ar gyfer yr henoed ar draws yr Ynys. Rwyf hefyd wedi ymweld â chartrefi ar gyfer yr henoed yn Llangefni a Llanfairpwll gyda staff y Cyngor. Rwyf hefyd yn gwasanaethu ar y Bwrdd Trawsnewid ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ac wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau i siarad ar fy swyddogaeth fel Eiriolydd ar gyfer yr henoed. Mae hyn wedi cymryd llawer o fy amser yn ystod y flwyddyn.

| Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol: | Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd | Nifer a fynychwyd |
|---|---|---|
| Cyngor Ar Bopeth | 6 | 5 |

Fel aelod o Fwrdd Cyngor ar Bopeth rwyf wedi cymryd diddordeb brwd yng ngwaith pwysig y sefydliad o ran y gefnogaeth a roddir i aelodau'r cyhoedd gael at wybodaeth a chyngor ar y gwahanol fudd-daliadau sydd ar gael.

[1] Darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

**2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

Yn barhaus, rwyf yn cael ceisiadau i lofnodi ceisiadau am basportau, tystlythyrau gwaith a delio gyda materion sy'n ymwneud â thai sydd angen eu trwsio, twmpathau ar y ffyrdd ac ati. Rwy'n ysgrifennu nifer o lythyrau yn holi'r gwahanol gyfarwyddwyr ynghylch materion sy'n pryderu trigolion. Mae adeiladu'r ysgol newydd yng Nghaergybi wedi cymryd oriau o fy amser yn cyfarfod gyda rhieni sy'n pryderu, llywodraethwyr ysgol ac ati.

Rwyf yn gwasanaethu ar gorff Llywodraethol Ysgol y Parc ac ar Gorff Llywodraethol Ysgol Uwchradd Caergybi

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwyf wedi cymryd diddordeb brwd yn y Cynllun Datblygu Lleol a'i oblygiadau ar gymunedau lleol. Yr wyf hefyd wedi cyflwyno sylwadau ar ran etholwyr mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Lleol drafft.

**4 - Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

| | |
|---|---|
| Gwe-ddarlledu | Mehefin 2014 |
| Sgrwitini sy'n Ychwanegu Gwerth | Medi 2014 |
| Hyfforddiant Pwyllgor Archwilio | Ionawr 2015 |
| Llywodraethu Gwybodaeth | Mawrth 2015 |

**5 – Gweithgareddau a Materion Eraill**

Rwyf wedi cymryd diddordeb penodol ym mhrosiect Wylfa Newydd a'r angen i roi sylw i elfennau amgylcheddol a'r cynlluniau ar gyfer cael gwared ar wastraff. Byddaf yn parhau i gymryd diddordeb brwd yn y materion hyn yn y dyfodol.

Rwyf wedi treulio llawer o amser yn delio gyda gwahanol geisiadau cynllunio - gall hyn fod rhwng dau a thri chais yr wythnos - a'r angen i ystyried pryderon y trigolion.

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd R Llewelyn Jones** | **Ebrill 2015** |